Inspection of Youth Offending Work
Arolygiad o Waith Troseddu Ieuenctid
HM Inspectorate of Probation
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre, 1 Bridge Street West, Manchester M3 3FX
0161 240 5336 - www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation
HM Inspectorate of Probation
Arolygiaeth Prawf EM

| | |
|---|---|
| *At:* | Colin Everett, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint |
| *Copi at:* | Gweler rhestr copïau ar y diwedd |
| *Oddi wrth:* | Alan MacDonald, Prif Arolygydd Cynorthwyol (Cyfiawnder Ieuenctid) |
| *Dyddiad Cyhoeddi:* | 07 Medi 2016 |

## Adroddiad Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) o waith troseddau ieuenctid yn Sir y Fflint

Cynhaliwyd yr arolygiad ar 25-27 Gorffennaf 2016 fel rhan o'n rhaglen arolygu gwaith troseddau ieuenctid. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Darperir copi i arolygiaethau partner i arwain eu harolygiadau, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB).

## Cyd-destun

Nod y system cyfiawnder ieuenctid yw rhwystro troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae asesu a chynllunio o ansawdd da ar gychwyn dedfryd yn allweddol bwysig er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Archwiliasom 14 o achosion o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu'n ddiweddar ac a oruchwylid gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJS) Sir y Fflint. Lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, gwnaed hyn ar y cyd â'r rheolwr achos dynodedig, a thrwy hynny'n cynnig cyfle dysgu i staff. Roedd y gyfradd aildroseddu[1] a gyhoeddwyd yn 33.3% ar gyfer Sir y Fflint o gymharu â 37.8% am y cyfan o Gymru a Lloegr.

## Crynodeb

Yn gyffredinol, canfuom grŵp brwdfrydig ac ymroddgar o staff a oedd wedi adeiladu perthynas gadarnhaol gyda'r plant a'r bobl ifanc a oedd wedi troseddu, ac â'u teuluoedd. Roedd rheolwyr achos yn ymroi i ddarganfod pa agweddau o fywyd plentyn neu berson ifanc a oedd yn cyfrannu at eu hymddygiad troseddol. Roedd cysylltiadau da ar waith gydag asiantaethau eraill ac roedd amrywiaeth helaeth o adnoddau ar gael i weithwyr i'w helpu i asesu a chynllunio eu gwaith, gan gynnwys gweithiwr rhianta a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Roedd cydymffurfio'n cael ei hyrwyddo a chamau'n cael eu cymryd yn erbyn torri rheol lle'r oedd angen hynny. Roedd angen rhoi sylw i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn i reoli risg o niwed i eraill a diogelwch a llesiant yn rhai effeithiol.

## Sylwadau ar yr arolygiad yn Sir y Fflint

### 1. Lleihau aildroseddu

[1] Cyhoeddwyd y gyfradd aildroseddu a oedd ar gael yn ystod y gwaith maes ym mis Ebrill 2016, ac roedd yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu deuol ar ôl 12 mis ar gyfer y cohort Gorffennaf 2013-Mehefin 2014. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

1.1. Roedd yr asesiad cychwynnol o'r plentyn neu berson ifanc yn gynhwysfawr ac yn cynnwys tystiolaeth ddigonol yn yr holl achosion a samplwyd. Roedd defnydd da o wybodaeth a chydgysylltu ag asiantaethau partner i asesu ac adolygu'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd anghenion anabledd ac amrywiaeth yn cael eu hasesu bob amser. Roedd hunanasesiad yn cael ei gwblhau, a barn plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael ei geisio. Roedd yn amlwg fod rheolwyr achos wedi defnyddio'r wybodaeth i ddeall yn well y plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Nododd un arolygydd: *"Mae'r asesiad yn cyfleu prif nodweddion yr achos ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a chofnodion gofal cymdeithasol sy'n rhoi darlun da o gartref y teulu dros y blynyddoedd."*

1.2. Ysgrifennwyd adroddiadau cyn-dedfrydu mewn naw o'r achosion a samplwyd. Roedd tystiolaeth fod ansawdd adroddiadau wedi cael ei sicrhau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r llys. Roeddent yn rhoi argymhellion clir a dadleuon grymus dros ddewisiadau eraill heblaw carcharu. Canfuom, fodd bynnag, fod pedwar adroddiad nad oeddent yn ddigon treiddgar na dadansoddol. Roedd y tri adroddiad gorchymyn atgyfeirio a archwiliasom wedi cael eu cynhyrchu i safon dda. Roeddem yn falch o weld bod yr adroddiadau yn ymatal rhag rhoi argymhellion penodol ar beth oedd angen bod yn y contract; o ganlyniad nid oedd penderfyniad y panel yn cael ei ragdybio. Roedd yn dda bod y rheolwr achos yn bresennol yn y panel gorchymyn atgyfeirio a'r adolygiadau dilynol.

1.3. Yn dilyn ymlaen o'r asesiad rydym yn disgwyl gweld cynllun gwaith i helpu lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rheolwyr achos wedi gweithio'n galed i annog y plentyn neu berson ifanc wrth gynhyrchu cynllun ymyrraeth unigol. Roedd y cynllunio'n dda ym mron pob achos, er bod enghreifftiau lle nad oedd yr iaith ffurfiol a ddefnyddiwyd yn ddealladwy i blentyn neu berson ifanc ac roedd rhai cynlluniau yn ddiffygiol o ran manylion ac eglurder.

1.4. Roedd yr adolygiadau'n ddigonol mewn tri chwarter o'r achosion a samplwyd. Roedd gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol wedi cael ei gyflawni yn y mwyafrif o achosion. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu cael at amrywiaeth o asiantaethau mewnol a phartneriaethau gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, a gweithiwr rhianta. Gwelsom dystiolaeth o ymwneud gweithgar ac effeithiol yr asiantaethau hyn yn yr achosion a arolygasom. Roedd tystiolaeth dda o gofnodi ymyraethau a digwyddiadau arwyddocaol gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

1.5. Roedd holl staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dangos dealltwriaeth dda o egwyddorion arferion effeithiol a ffactorau a oedd yn cyfrannu at leihad mewn troseddu.

## 2. Amddiffyn y cyhoedd

2.1. Disgwyliwn weld asesiad manwl o'r risg o niwed y mae plentyn neu berson ifanc yn ei achosi i eraill. Dylai hyn gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys troseddu ac ymddygiad yn y gorffennol, yn ogystal â'r effaith ar ddioddefwyr. Canfuom fod hyn wedi digwydd mewn tipyn dros dri chwarter yr achosion.

2.2. Ar ôl asesu'r risg o niwed y mae plentyn neu berson ifanc yn ei achosi i eraill, dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid roi cynlluniau ar waith i reoli'r risgiau hyn. Roedd hyn wedi cael ei wneud yn dda ym mhob achos perthnasol ond tri. Roeddem yn teimlo bod y cynlluniau hyn yn brin o gamau gweithredu clir a chynlluniau wrth gefn i ymdrin â newid yn amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc. Lle'r oedd dioddefwr neu ddioddefwr posibl y gellid ei adnabod, roedd y risg o niwed yn cael ei reoli'n dda.

2.3. Pan oedd plentyn neu berson ifanc yn cael ei asesu fel rhywun â risg uchel neu uchel iawn o beri niwed difrifol i eraill, roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint yn

cynnal cyfarfodydd risg a diogelwch a llesiant, a oedd yn cynnwys panel amlasiantaethol i ffurfio cynllun rheoli risg ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac asiantaethau partner. Roedd hon yn broses werthfawr a ddefnyddid i hybu gweithio integredig rhwng asiantaethau i reoli risg o niwed a rhannu gwybodaeth.

## 3. Amddiffyn y plentyn neu berson ifanc

3.1. Yn aml, mae plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn agored i niwed eu hunain yn ogystal a disgwyliwn weld bod eu diogelwch a'u llesiant wedi cael ei asesu'n drylwyr, gyda chynlluniau ar waith i reoli'r anghenion hynny. Yn gyffredinol, canfuom fod rheolwyr achosion wedi cymryd amser i adnabod a deall y bregusrwydd a oedd i'w weld yn y mwyafrif o achosion perthnasol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried anghenion plant a phobl ifanc o ran camddefnyddio sylweddau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac unrhyw dystiolaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

3.2. Unwaith mae asesiad wedi cael ei gwblhau, dylai fod cynllun yn cael ei roi ar waith i ymdrin ag anghenion diogelu'r plentyn neu berson ifanc. Roedd ansawdd y cynllunio ar gyfer gwaith i leihau bregusrwydd plant a phobl ifanc yn amrywiol. Lle nodwyd bylchau, roedd y rhain yn cynnwys ymatebion a oedd wedi eu cynllunio'n annigonol neu'n aneglur. Canfuom rai cynlluniau nad oedd yn nodi'r holl gamau'r oedd eu hangen o safbwynt y ffactorau risg unigol. Teimlem mai'r rheswm am hyn oedd, mewn rhai achosion, diffyg eglurder ymysg rhai staff ynghylch sut i greu cynlluniau clir a chywir o fewn y cynllun integredig AssetPlus. Mewn un enghraifft nid oedd unrhyw gynllun wrth gefn i fynd i'r afael ag anghenion diogelu plentyn neu berson ifanc a oedd yn ffoi'n aml o'u cartref.

3.3. Roedd gwaith ar y cyd i hyrwyddo diogelu a llesiant y plentyn neu berson ifanc yn amlwg. Lle'r oedd angen, roedd staff yn cydygysylltu'n effeithiol ac yn cydweithio â gwasanaethau arbenigol eraill. Mewn achosion lle'r oedd asiantaethau eraill â chyfrifoldeb am ymyraethau penodol, roedd rheolwyr achos yn dal i fod yn eiriolwyr cydwybodol ar ran y plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu goruchwylio. Roedd yn amlwg fod staff yn cefnogi ac yn hyrwyddo llesiant y plentyn neu berson ifanc drwy gydol y ddedfryd.

3.4. O'r pedwar o blant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu dedfrydu i'r ddalfa, dim ond dau ohonynt oedd â chynllun digonol i ymdrin â diogelwch a llesiant. Roedd rhai cynlluniau dedfrydau yn y ddalfa nad oeddent yn rhoi digon o fanylion ynghylch beth fyddai'n cael ei wneud a chan bwy. Roedd angen gwelliant o ran trefniadau rhannu gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn y ddalfa ac a oedd mewn perygl o hunan-niweidio. Lle codai anawsterau gyda rhannu gwybodaeth gyda'r sefydliadau carcharu, roedd y staff yn uwchgyfeirio'r materion hynny'n briodol i reolwyr.

## 4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

4.1. Roedd rheolwyr achos yn cymryd amser i ddod i adnabod y plant a phobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy, ac yn datblygu perthynas o ymddiriedaeth â hwy. Roedd materion yn ymwneud ag amrywiaeth a rhwystrau eraill i gydweithredu wedi cael eu hasesu yn ystod y cyfnod ysgrifennu adroddiadau a chynlluniau wedi eu paratoi ar eu cyfer wrth ystyried ymyraethau mewn bron i ddau draean o'r achosion a samplwyd. Gwnaed ymdrechion ar gychwyn y ddedfryd i ddeall ac adnabod sut y gall anghenion unigol y plentyn neu berson ifanc effeithio ar eu parodrwydd i gydweithredu. Roedd hyn yn arwain, er enghraifft, at reolwyr achos yn addasu'r ffordd yr oeddent yn gweithio i ganiatáu ar gyfer anawsterau cyfathrebu. Roedd rhai achosion lle dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i ddull y plentyn neu berson ifanc o ddysgu.

4.2. Roedd y cyd-drafod â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn ddigonol ym mron y cyfan o'r sampl a arolygwyd. Roedd yn amlwg fod rhieni/gofalwyr yn bresennol yn y

cyfnod ysgrifennu adroddiadau ac yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio ymyraethau. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd asesiad anghenion rhianta yn cael ei gwblhau cyn dedfrydu, a oedd yn enghraifft dda o gynnwys rhieni/gofalwyr a chynnig cymorth ar y cyfle cynharaf. Gwelsom fwy nag un enghraifft o waith i gynorthwyo rhieni/gofalwyr gyda'u hanghenion eu hunain lle'r oedd y rhain yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Gwnaed defnydd da o ymweliadau cartref ac roedd yn amlwg fod rheolwyr achosion o'r farn fod rhieni/gofalwyr yn hanfodol i gwblhau'r gorchymyn yn llwyddiannus.

4.3. Wrth arolygu yng Nghymru disgwyliwn weld tystiolaeth o sgrinio bwriadol ac amserol i weld p'run ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw dewis iaith y plentyn neu berson ifanc. Roeddem yn falch o weld y gofynnwyd i bob plentyn a pherson ifanc ynghylch eu dewis iaith ar eu cyfarfyddiad cyntaf â staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys eu dewis iaith ysgrifenedig a llafar.

4.4. Canfuom fod tri chwarter o blant a phobl ifanc o fewn ein sampl wedi cydymffurfio â'u gorchymyn. Roedd rheolwyr achos yn gwneud ymdrech gyson a sylweddol i helpu plant a phobl ifanc i gydymffurfio â'u dedfryd; roedd hyn yn gryfder penodol yn Sir y Fflint. Ym mhob achos roeddem o'r farn fod yr ymateb i ddiffyg cydymffurfio yn briodol.

### Rheolaeth weithredol

Rydym yn chwilio am dystiolaeth fod goruchwyliaeth rheolwyr wedi bod yn effeithiol i sicrhau bod ansawdd y gwaith i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill a llesiant y plentyn neu berson ifanc yn ddigonol. Gall hyn fod yn ffurf sesiynau un-i-un rhwng y gweithiwr a'u rheolwr, neu gyfarfod ehangach gyda chydweithwyr mewnol, yn ogystal â gweithredu prosesau sicrhau ansawdd cadarn. Roeddem yn falch o weld tystiolaeth o'r rhain i gyd yn Sir y Fflint. Roedd nodiadau clir gan reolwyr mewn cofnodion achosion, lle'r oeddent yn adnabod digonolrwydd a diffygion mewn arferion. Canfuom, fodd bynnag, mai mewn hanner yn unig o'r achosion perthnasol lle byddem wedi disgwyl iddo fod wedi gwneud gwahaniaeth yr oedd goruchwyliaeth rheolwyr wedi bod yn effeithiol. Wrth adnabod diffygion mewn asesu a chynllunio, mae angen i reolwyr sicrhau y rhoddir sylw prydlon iddynt.

Teimlai'r staff a gyfwelwyd gennym fod gan eu rheolwyr y sgiliau i'w cefnogi a'u helpu i wella ansawdd eu gwaith. Teimlai rhai, fodd bynnag, y dylai sesiynau un-i-un gyda rheolwyr ganolbwyntio mwy ar ymarfer myfyriol. Teimlai pawb fod eu hanghenion hyfforddi'n cael eu diwallu o ran eu swydd bresennol.

### Cryfderau allweddol

- Roedd staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio'n galed i helpu plant a phobl ifanc i gydymffurfio â'u gorchmynion llys.
- Roeddent yn neilltuol o dda am adeiladu perthynas gyda'r plentyn neu berson ifanc a rhieni/gofalwyr, gan gynnal ymweliadau cartref i helpu deall sefyllfaoedd yn drylwyr.
- Roedd cydgysylltu a chydweithio effeithiol gydag asiantaethau eraill.

### Meysydd lle mae angen gwella

- Mae angen i gynlluniau wrth gefn, sy'n ymwneud â'r risg o niwed y mae plentyn neu berson ifanc yn ei beri i eraill, a diogelwch a llesiant, fod yn effeithiol.
- Dylai cynlluniau i fynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu gynnwys amcanion sy'n hawdd i'r plentyn neu berson ifanc eu deall, ac y gall y rheolwr achos fesur cynnydd tuag atynt yn rhwydd.

- Dylai goruchwyliaeth rheolwyr sicrhau bod asesiadau a chynlluniau i reoli risg o niwed a bregusrwydd o ansawdd ddigonol.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniasom gan staff yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i hwyluso'r arolygiad hwn a chymryd rhan ynddo. Byddwch cystal â diolch iddynt ar ein rhan, a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu o ganfyddiadau'r arolygiad hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch yr arolygiad, cysylltwch â'r arolygydd arweiniol, sef Yvette Howson. Gellir cysylltu â hi ar Yvette.howson@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 07825 453092.

Copi i:

| | |
|---|---|
| Pennaeth Gwasanaeth Timau Troseddau Ieuenctid | *Ann Roberts* |
| Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol | *Colin Everett* |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant | *Ian Budd* |
| Aelod Etholedig Arweiniol Gwasanaethau Plant | *Christopher Bithell* |
| Aelod Etholedig Arweiniol Troseddu | *Jenny Williams* |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | *Arfon Jones* |
| Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant | *Ian Budd* |
| Cadeirydd Mainc Llys Ieuenctid | *John Donolly* |
| Pennaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru | *Dusty Kennedy* |
| Llywodraeth Cymru | *Sarah Cooper* |
| Staff cysylltiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | *Lisa Harvey-Messina, Paula Williams, Linda Paris, Rowena Finnegan* |
| Staff cyfathrebu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | *Ali Lewis, Rachel Brown, Summer Nisar, Adrian Stretch* |
| Estyn | *Alun Connick, Jassa Scott* |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | *Nigel Brown, Bobbie Jones* |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | *Alison Kedward, John Powell* |
| Swyddfa Archwilio Cymru | *Huw Rees* |

Nodyn 1: Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith gyda'r rheini sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hyrwyddo gwelliant parhaus gan y sefydliadau a arolygwn ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system gyfiawnder troseddol.

Nodyn 2: Rydym yn casglu tystiolaeth i'w osod yn erbyn meini prawf Sgrinio Ansawdd Byr, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi - http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation.

Nodyn 3: I ofyn am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch ag uned Cyfathrebu Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar communications@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ar 0161 240 5336.